Gilbert de Clare - Taflen Ateb

Roedd Gilbert de Clare yn un o Arglwyddi gorau'r Gororau. Cafodd ei eni ar 2 Medi.

Priododd Gilbert de Clare ag Alice de Lusignan ym 1253, pan oedd Gilbert yn 12 mlwydd oed.

Cafodd Isabelle, merch gyntaf Gilbert ac Alice, ei geni ym mis Mawrth, 9 mlynedd ar ôl iddynt

Etifeddodd Gilbert ystadau ei dad a theitl Iarll Caerloyw pan fu farw ei dad ym mis Gorffennaf 1262.

Cafodd Joan, ail ferch Gilbert ac Alice, ei geni pan oedd Gilbert yn 21 oed.

Ym mis Hydref 1265, fel gwobr am iddo gefnogi'r Tywysog Edward, rhoddwyd castell a theitl y Fenni i Gilbert, yn ogystal ag anrhydedd a chastell Brycheiniog.

Pan oedd Gilbert de Clare yn 25 mlwydd oed, dechreuodd adeiladu castell Caerffili.

Ymosododd Llywelyn ap Gruffydd ar y castell ym mis Hydref 1270 a'i losgi.

Dechreuodd Gilbert de Clare adeiladu castell Caerffili eto ym mis Mehefin 1271

Priododd Gilbert de Clare â Joan o Acre yn niwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai 1290. Joan oedd merch Brenin Edward y 1af, ac roedd hi'n 26 mlwydd oed.

Gilbert hefyd oedd enw unig fab Gilbert a Joan. Cafodd Gilbert, y mab, ei eni pan oedd ei dad yn 48.

Cafodd Eleanor de Clare, merch gyntaf Gilbert a Joan, ei geni 2 flynedd ar ôl iddynt briodi, ym mis Hydref.

Cafodd Margaret de Clare, ail ferch Gilbert a Joan, ei geni ym 1293.

Cafodd Elizabeth de Clare, trydedd ferch Gilbert a Joan, ei geni ar 16 Medi 1295.

Bu farw Gilbert de Clare ar 7 Rhagfyr 1295 yn 52 mlwydd oed.